OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 3027

# Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000

**Dirprwyo swyddogaethau'r corff llywodraethu**

**7.** Wrth benderfynu a ddylid arfer unrhyw bwer i ddirprwyo eu swyddogaethau a sut y dylid gwneud hynny, gan gynnwys y pŵ er cyffredinol yn Rheoliad 41 o Reoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) 1999(**1**) rhaid i'r corff llywodraethu roi sylw i'r canlynol—

(a) y gofyniad yn rheoliad 5 uchod y dylent arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar gyflawni rôl strategol yn fras yng ngwaith rheoli'r ysgol; a

(b) cyfrifoldeb y pennaeth am drefniadaeth a rheolaeth fewnol yr ysgol.

(**1**) O.S. 1999/2242 (Cy.2).